Pris: 50c

Papur Pawb

Ionawr 2026 Rhif 515

Er yr eira annisgwyl a darodd yr ardal ar ddydd Sul 4 Ionawr, roedd Alffi allan yn clirio'r ffordd wrth Maesyfelin, Tal-y-bont,

tud 2 Hwyl yn yr eira

tud 6-7 Ysgol Tal-y-bont

tud 9 Canu Calennig

tud 10-11 Cronfa Cae Bach

Yr Ysgol mewn Dwylo Diogel

Mae Ysgol Talybont ar drothwy cyfnod cyffrous wrth groesawu Miss Morris fel ein Pennaeth. Bydd hi'n camu i'r swydd ar ddechrau tymor yr haf, gan ddechrau ar bennod newydd yn hanes yr Ysgol.

Mae hi wedi bod yn rhan annatod o'r ysgol ers blynyddoedd, ac yn rhywun sy'n adnabod yr Ysgol, y staff a'r gymuned yn arbennig o dda. Mae hi'n athrawes brofiadol ac adnabyddus am ei hymroddiad a'i gofal tuag at y plant yma yn Nhal-y-bont.

Sioned Morris

Pwy well i arwain yr ysgol na rhywun sydd eisoes wedi ennill parch a chydnabyddiaeth pawb?

Gyda blynyddoedd o brofiad addysgu, mae Miss Morris wedi gweld yr ysgol yn tyfu a datblygu, ac mae'n dod â sefydlogrwydd a gweledigaeth glir i'r swydd. Mae hi'n frwdfrydig i barhau â'r gwaith da sydd eisoes ar waith, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i lwyddo mewn amgylchedd gofalgar, cynhwysol a llawn cyfleoedd. Mae ei gwybodaeth am anghenion y disgyblion a'r gymuned yn rhoi mantais unigryw i sicrhau bod yr ysgol yn parhau i fod yn ganolbwynt bywiog i'r pentref.

Mae llawer eisoes wedi ei llongyfarch ac mae teimlad o gyffro a hapusrwydd yn y gymuned. Gyda'r ysgol mewn dwylo profiadol a sefydlog, mae pawb yn hyderus y bydd y cyfnod newydd hwn yn llawn llwyddiant.

Pob lwc i chi Miss Morris yn y rôl newydd – rydym yn edrych ymlaen at weld yr ysgol yn parhau i ffynnu yn eich dwylo chi.

Hoffai'r llywodraethwyr hefyd ddiolch i Mr Greg Vearey Roberts am ei waith caled dros y misoedd diwethaf a'r dyletswyddau a fydd yn parhau i'w gwneud cyn dychwelyd i Ysgol Llanilar ddiwedd tymor y Gwanwyn. Mae wedi sicrhau bod lles y plant yn ganolog yn ystod cyfnod heriol i'r Ysgol.

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:
Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:
Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:
Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:
Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
07507 652092

Rhwydweithiau cymdeithasol:
Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgrifiadau:
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:
Helena O Sullivan, Bont-goch
07812 994 008

Dylunio:
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Cathryn a Siwan gydag Iolo yn dylunio. Diolch iddynt.

Phil a Megan (gwynionydd@btinternet.com) fydd yn golygu rhifyn Chwefror. Y dyddiad cau yw 6 Chwefror a bydd y papur ar werth ar 13 Chwefror.

Hwyl yn yr eira

Dechrau oer iawn i 2026 ond y bobl ifanc yn hapus! Elen, Ariana a Cadi Lloyd-Williams yn mwynhau'r eira yn Bont-goch.

Ela yn joio'r eira!

Bois Llwynglas yn mwynhau sledio

NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT

YN EISIAU:
GOFALWR RHAN AMSER
I gychwyn mor fuan ag sy'n bosibl.
Am fwy o wybodaeth cysyllter â:
Mererid Watson
(mererid_watson@outlook.com)

NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT

CYFARFOD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR RHEOLI
Nos Fercher 11 Chwefror
8.00 yr hwyr
Yn y Neuadd Waelod
Croeso cynnes i bawb

DYDDIADUR

IONAWR

9 **Cwis** 8 Wildfowler
11 **Bethel** 10 Geraint Evans
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
13 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 2 'Dilyn y Freuddwyd' (Glyn Saunders Jones)
15 **Bingo** 7.30 Wildfowler
18 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
19 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 7.30 'Enwau Lleoedd' (Angharad Fychan)
21 **Coffi a Chlonc** 10.30−12 Neuadd Llanfach
25 **Bethel** 10 Uno yn Seion Aberystwyth, Densil Morgan
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
29 **Bingo** 7.30 Wildfowler
30 **Cwis** 8 Wildfowler

CHWEFROR

1 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
5 **Bingo** 7.30 Wildfowler
8 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
10 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 2 'Cwmni Drama'r Wardens' (Ioan Guile)
11 **Cyfarfod Blynyddol** Pwyllgor Rheoli y Neuadd Goffa 8yh
13 **Cwis** 8 Wildfowler

BOB WYTHNOS

Neuadd Goffa Tal-y-bont Bore Mawrth 10 −12 Cwtsh Cynnes, coffi a chlonc
Cletwr Dydd Mawrth 1− 4 'Clonc a Gweu'

Cofiwch anfon manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o'r papur.

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN

Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

Pobl a Phethe

Priodas
Llongyfarchiadau i Alannah Jones, Bont-goch ar ei phriodas gyda Lewis John Williams ym mis Hydref.

Cyngerdd Nadolig a Ffair Grefftau Cylch Meithrin Tal-y-bont

Ar nos Lun, 8fed o Ragfyr, cynhaliwyd cyngerdd Nadolig flynyddol arbennig gan blant Cylch Meithrin Tal-y-bont ynghyd â ffair Nadolig liwgar. Roedd y neuadd yn llawn o deuluoedd a ffrindiau yn mwynhau perfformiadau hyfryd gan y plant, yn ogystal â stondinau llawn nwyddau Nadoligaidd, crefftau, a lluniaeth. Diolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd – roedd yn achlysur bendigedig i ddathlu'r tymor a chodi arian i'r cylch yn yr un modd.

Plant Ysgol Tal-y-bont yn canu carolau i ddiddanu criw'r Cwtsh Cynnes

Eglwys Elerch
Cynhaliwyd y gwasanaeth blynyddol traddodiadol o'r cymun bendigaid yn Eglwys St. Pedr, Elerch ar fore Nadolig am 8-00 am. Er yn fore oer, roedd 14 yn bresennol yn y gwasanaeth dan ofal Y Parchg Lynn Rees.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â theulu Mrs Aldwyth Morgan, Maesnewydd gynt, a fu farw ym mis Rhagfyr, a hithau o fewn ychydig i ddod yn ganmlwydd oed.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Jane Pugh, Tre'rddôl, sydd wedi colli ei chwaer, Lyn, a oedd yn byw yn Aberystwyth.

Cydymdeimlir gyda Mrs Tegwen Evans, Pen-y-graig, Bont-goch yn dilyn colli ei brawd yng nghyfraith yn Bow Street.

Llawdriniaeth
Gobeithiwn fod Ifan Evans, Tŷrhelyg, yn ymgryfhau wedi iddo dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Yn dathlu
Llongyfarchiadau i Brian a Caren Evans, Nantllain sydd wedi dathlu priodas rhuddem yn ddiweddar.

Pen-blwydd hapus iawn i Carys Joseph, Maes y Deri a fydd yn ddeunaw oed ar y 9fed o Ionawr.

Dymuniadau gorau i Mrs Jano Evans, Maesyderi gynt, sydd wedi ymgartrefu yng Nghartref Gofal y Cwm. Dathlodd benblwydd arbennig yn 90 oed hefyd yn ddiweddar. Cofion cynnes atoch Jano.

Babi newydd
Llongyfarchiadau mawr i Stacey Pritchard a Karl Bennett ar enedigaeth Lilah Rose, wyres fach i Gareth a Beverly Pritchard, Y Llew Gwyn.

Dilyn Elfyn
Er y canlyniad siomedig, gobeithio i Huw Lewis, Tre'ddôl, fwynhau'r profiad o wylio ymgais Elfyn Evans i ennill Pencampwriaeth Ralio'r Byd yn Saudi Arabia yn ddiweddar.

Probert & Williams
eye care
Eich optegwyr annibynnol lleol
15 Stryd y Popty, Aberystwyth
01970 611555
www.probertandwilliams.co.uk
Cymraeg

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol.

Dylid anfon ffurflenni cais wedi'u cwblhau at:

E-bost: cyngorllangynfelync-council@hotmail.co.uk

Neu

Post: Clerk, Cyngor Cymuned Llangynfelyn, Ynystudor, Tre'r-ddol, Machynlleth, SY20 8PL

erbyn diwedd Ionawr 2026 fan bellaf

Mynd i'r dref

Waganet (ar daith o Aberystwyth) o'r un cyfnod ag un Isaac Argoed. Mae'n amlwg nad oedd 'iechyd a diogelwch' yn bodoli yn y dyddiau hynny.

Ym mhapur bro cyntaf yr ardal, Lloffion Llangynfelyn, a gyhoeddwyd yn yr 1950au, ceir llawer o erthyglau hanes difyr. Isod ceir detholiad o erthygl a luniwyd gan Dewi Morgan, tad y diweddar Elystan Morgan, yn seiliedig ar ei atgofion personol am sut y teithiai trigolion y cylch i Aberystwyth cyn dyddiau ceir a bysiau

'Yr wyf yn sôn am y modd y byddai pobl Tre'r ddôl a Thaliesin yn myned i Aberystwyth yn y blynyddoedd 1885-1905. Fe gofir mai dydd Llun yw diwrnod marchnad Aberystwyth ers amser hir, a dyma'r olwg a gaem ni, bobl Penygarn arnynt. Cerbyd dwy olwyn a 'springs' dano fyddai ganddynt, gwaith saer lleol. Go anesmwyth fyddai'r daith am fod gormod o bwysau ar gefn y ceffyl, ac felly'n ysgwyd y teithwyr bob cam a gymerai'r ceffyl. Petai'r llwyth yn weddol wastad rhwng y tu blaen a thu cefn y cerbyd fe fyddai'r daith yn llawer rhwyddach.

Yn Nhre'r ddôl yr oedd Ned y Commercial yn cadw ceffyl a cherbyd. Go ddiystyr oedd ef o gysur i deithwyr. Llawer gwaith y gwelais y cerbyd a'i lwyth yn sefyll o flaen tafarn Rhydypennau; Ned yn y dafarn a'r cwmni allan yn y glaw. 'Wn i ddim faint a dalai'r bobl am eu cludo; rhywbeth o swllt i ddeunaw yr un. O leiad swllt oedd y pris o Dal-y-bont. Fe ddalai'r cerbyd saith neu wyth ar ei eithaf, a chymerai'r daith o Dre'r ddôl i'r dref tua dwyawr.

Yn Nhaliesin yr oedd un William Pugh yn cadw cerbyd. Gydag ef yr oedd Lewis Edwards. Cerbyd dwy olwyn oedd gan Pugh hefyd. Credaf mai gŵr o'r Gogledd oedd ef; beth bynnag, yr oedd yn ddyn anferth ei faint. Yr oedd gan Lewis Edwads *waganet* fechan, cerbyd pedair olwyn, a dyna welliant mawr. Efallai bod hynny'n fwy o dynn i'r ceffyl, ond nid oedd dim pwysau ar ei gefn nac ar y dorgami.

Yn Nhal-y-bont yr oedd amryw byd yn cadw cerbyd a cheffyl. Dyna Dafydd Enoc a gadwai ffatri – byddai ef yn cario teithwyr ac ambell i gorn o wlanen i'w werthu. Rhyw Lewis wedyn oedd yn dipyn o gigydd, yr oedd yntau hefyd yn "postio".

Ond tua'r flwyddyn 1893 daeth newid mawr ar y dull o "fynd i'r dref". Dyma'r adeg y daeth John Oliver o Lundain i'r Odyn Fach yn ymyl Maesnewydd. Gŵr anghyffredin oedd ef, cyfarwydd iawn â cheffyl. Teithiodd ef yr holl ffordd o Lundain yn ei gerbyd a dau geffyl yn *tandem.* Yr oedd ei ferlen wen yn ddeallus dros ben. Gwelais ef yn ei galw o ben draw iard y stesion yn Llanfihangel, ac fe ddôi ato fel ci yn union. Fe wnâi iddi roi ei thraed blaen ar ben casgen, ac fe'i dilynai o gwmpas heb ddweud dim wrthi.

Wel, daeth ef i fyw i'r Odyn Fach tua 1893, a chanddo *waganet* fawr yn cario o ddeunaw i ugain; dau geffyl yn y bôn ac un ar y blaen. Hoffai Oliver wneud tipyn o sioe ohono'i hun, gwisgo clôs pen-glin a het feddal a chantel llydan iddi, - fel Buffalo Bill gynt. A phan ddôi'r cerbyd i'r dref byddai'n mynd i fyny'r stryd fawr ar garlam. Ac fe wyddai pawb fod pobl Tal-y-bont wedi cyrraedd.

Aeth eraill i 'morol am *waganet*, a dyma dranc y cerbyd dwy olwyn. Aeth Jim Felix yn berchennog *waganet* – mwy nag un ohonynt. A dyna Isaac Davies, "Isaac Argoed" – dyn go wlyb oedd ef. Gwelais â'm llygaid fy hun beth fel hyn; y Llun cyntaf yng Ngorffennaf 1899 oedd hi. Yr oedd yn mynd â'r *waganet* a dim ond tair olwyn dani. Dyma oedd wedi digwydd. Wrth droi o lôn Gogerddan i'r ffordd fawr, aeth un o'r olwynion cefn yn dipiau, gan adael dim ond y foth ar ôl. Daeth un hanner i'r *waganet* yn rhydd a'r dynion ar gefnau'i gilydd ar y llawr. "Ydech chi i gyd yn glir yna", meddai Isaac, ac adref ag ef, gan adael i bob un gymryd ei siawns.

Daeth y bws modur tua 1922-23. Cwmni Lein Fach Corris oedd piau'r bysiau moduron cyntaf, a dyna ben ar y cerbyd ceffyl.

(Lloffion Llangynfelyn, 2, Ebrill-Mehefin 1956)

[ôl nodyn: ceir disgrifiad o ddamwain waganet Isaac Davies yn y Montgomeryshire County Times, 8 Gorffennaf 1899]

Merch Leol yn ymweld a chyflwyno yn Awstralia.



Mae Serian Evans, Bont-goch, a aeth i Ysgol Gynradd Tal-y-bont ac Ysgol Gyfun Penweddig, wedi dilyn llwybr gyrfa sy'n wahanol ag ysbrydoledig.

Mae llwybr Serian, o gradd mewn dylunio tecstilau i wyddoniaeth anifeiliaid, yn dangos sut gall sgiliau sylfaenol a bod yn barod i geisio pethe newydd arwain at broffesiwn hollol wahanol. Ar ôl graddio mewn Dylunio Tecstilau, aeth Serian i deithio yn 2015 a bu'n gweithio i gwmni yn Seland Newydd o'r enw *Techion*, lle bu yn astudio parasitiaid mewn anifeiliaid gan ddefnyddio offer *Fecpak*. Pan ddychwelodd, parhaodd Serian i weithio i *Techion* yng Nghymru am saith mlynedd, gan ennill profiad gwerthfawr ac yn llwyr newid ei llwybr gyrfa.

Heddiw mae'n gweithio fel technegydd/ parasitolegydd ag yn astudio am Radd Meistr mewn amaeth yn adran y Gwyddorau Bywyd ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac yn rhan o brosiect *FlukeMAP*, sy'n gwneud ymchwil i lyngyr yr iau (*liver fluke*). Prosiect ymchwil cydweithredol gyda'i fryd ar feithrin dealltwriaeth pellach o lyngyr yr iau mewn defaid a datblygu strategaethau arloesol, cynaliadwy ar gyfer ei reoli.

Yn ddiweddar, cafodd Serian y cyfle i deithio i *Wollongong*, Awstralia, i roi ei chyflwyniad cynhadledd ryngwladol cyntaf yn yr '*International Veterinary Sheep Congress*'. Cyflwynodd ymchwil ar reoli *Fasciola hepatica*, ai effaith ar ddefaid yng Nghymru , ac fe'i gwahoddwyd i ymuno â'r panel trafod llyngyr yn anifeiliaid.

"Roedd hi'n brofiad anhygoel," meddai Serian. "Dysgais gymaint, roedd y trafodaethau'n wych, a chwrdd â phobol ysbrydoledig a gwneud cysylltiadau newydd. Rwy'n teimlo'n falch iawn i gynrychioli tîm *FlukeMAP* ar y llwyfan rhyngwladol."

Mae taith Serian yn dangos sut gall bod yn agored i newid arwain at gyfleoedd cyffrous ac annisgwyl.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD REHOBOTH

Daeth yr aelodau ynghyd i festri Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 9 Rhagfyr, ac estynnodd Meinir Fleming groeso i bawb ac i'r gŵr gwadd, Rhodri Francis, Trefechan. 'Atgofion' oedd teitl ei sgwrs, ac roedd ganddo nifer o deganau o'r oes o'r blaen ar y bwrdd o'i flaen, ac yn ystod y prynhawn cawsom gyfle i drafod a rhannu hanesion am deganau ac arferion y Nadolig adeg ein plentyndod. Clywsom storïau difyr gan amryw o'r aelodau a mwynhawyd y sgyrsiau yn fawr, gan ddiolch i Rhodri Francis am ein hannog i adrodd yr hanesion. Mwynhawyd y te a'r mins peis a baratowyd gan Meinir Fleming ac Aileen Williams i gloi'r cyfarfod.

GWASANAETH CAROLAU

Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau ar y cyd rhwng Eglwys Llangynfelyn a Chapel Rehoboth brynhawn Sadwrn, 20 Rhagfyr, yn Neuadd Llanfach. Yn dilyn y gwasanaeth mwynhawyd y te hyfryd a baratowyd gan rai o'r aelodau.

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL

01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Alun Davies
Contractiwr Trydanol
M 07703 169813
Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
E alun.davies142@btinternet.com

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos
Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs / Dau gwrs)
Ystafelloedd ar gael
01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Gwasanaeth Nadolig Capel Bethel

Côr y Merched

Ar Noswyl Nadolig, daeth y gymuned ynghyd yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont, i fwynhau gwasanaeth arbennig llawn naws yr ŵyl. Roedd y capel yn llawn gan greu awyrgylch croesawgar i bawb.

Cyfrannodd llawer o bobl at y gwasanaeth yn cynnwys parti merched y pentref, Parti Papur Pawb, ac amryw o ddarlleniadau perthnasol. Cafwyd perfformiadau cerddorol hyfryd, gan ganu carolau traddodiadol a darnau arbennig a oedd yn atgoffa pawb o wir ystyr y Nadolig.

Côr Plygain Papur Pawb

Uchafbwynt y gwasanaeth oedd gweld cyflwyniad yr Ysgol Sul o'r 'Teulu Blin'. Drama ysgafn oedd hi a gafodd ei pherfformio yn raenus ganddynt gan ddod â neges y Nadolig yn fyw drwy lais y plant a dysgu mai rhoi sy'n bwysig nid derbyn.

Y plant wedi'r perfformiad

Cafwyd cyfle i'r gynulleidfa ymuno mewn canu carolau, gan greu teimlad o undod a llawenydd. Roedd y gwasanaeth yn gyfle i gymuned Tal-y-bont ddod at ei gilydd, myfyrio ar y tymor, a dathlu gyda chalon agored.

Penderfynodd y plant fod y casgliad eleni yn mynd tuag at Ward Angharad yn Bronglais sef Ward y Plant. Casglwyd swm arbennig tuag at yr elusen ar y noson.

Diolch i bawb a fu'n rhan o'r trefniadau – yr arweinwyr, y perfformwyr, a'r gynulleidfa – am wneud y noson hon yn un gofiadwy eto eleni a llawn bendith.

Ysgol Tal-y-bont

Cinio Nadolig

Ffair Nadolig

Ar ôl wythnosau o waith cynllunio a pharatoi fel rhan o'u gwaith rhifedd, roedd cyffro a bwrlwm yn neuadd yr ysgol wrth i ni gynnal ein Ffair Nadolig. Bu'r plant yn brysur yn dylunio cynnyrch, casglu a dadansoddi data cyn creu cynnyrch arbennig i'w werthu. Roedd yn braf gweld y neuadd yn llawn a gweld gwaith rhifedd y plant ar waith wrth iddynt redeg y stondinau.

Sinema

Cafwyd cyffro mawr wrth i ni ymweld â sinema Canolfan y Celfyddydau er mwyn dathlu gwaith arbennig y plant drwy gydol y flwyddyn. Diolch enfawr i Gymdeithas y Rhieni a'r Athrawon am dalu am y profiad cofiadwy hwn. Wedi'r sinema, cafwyd picnic lle cafodd pawb hwyl yn cymdeithasu gyda'i gilydd.

Goleuo'r Goeden Nadolig

Roedd yn braf cael gwahoddiad i ganu wrth i'r pentref goleuo'r goeden Nadolig eleni. Roedd yn hyfryd bod yn rhan o ddigwyddiad arbennig yng nghanol y gymuned.

Siôn Corn

Cafwyd ymweliad arbennig iawn ar ddiwedd y tymor wrth i'r dyn ei hun wneud ymweliad â'r ysgol. Roedd y plant i gyd yn llawn cyffro ac yn falch iawn o'r anrhegion a dderbyniwyd!

Cyngerdd Nadolig Ysgol Tal-y-bont yng Nghapel Bethel

Cynhaliwyd cyngerdd Nadolig Ysgol Tal-y-bont yng Nghapel Bethel eleni ar Nos Fercher y 10fed o Ragfyr ar noson arbennig, a'r capel yn llawn dop o rieni, teuluoedd a thrigolion lleol yn awyddus i fwynhau dathliad y tymor. Roedd awyrgylch croesawgar a chynnes yno.

Dechreuodd y noson gyda chyflwyniadau offerynnol cerddorol gan ddisgyblion ar wahanol offerynnau pres a oedd yn gosod naws hudolus i'r digwyddiad. Wedi hynny, symudwyd ymlaen at brif atyniad y noson – perfformiad llawn bywiogrwydd *Y Cracyrs Nadolig*. Trwy actio, canu a hiwmor, llwyddodd y plant i adrodd stori'r geni mewn ffordd greadigol a hwyliog, gan swyno'r gynulleidfa o'r dechrau i'r diwedd.

Roedd y perfformiad yn llawn lliw a syniadau gwreiddiol, gyda gwisgoedd trawiadol a cherddoriaeth yn ychwanegu at y profiad. Roedd yn amlwg bod llawer o waith caled wedi mynd i baratoi'r sioe, ac roedd y plant yn disgleirio ar y llwyfan. Cafwyd cyfle hefyd i'r gynulleidfa ymuno drwy ganu carol draddodiadol i orffen y noson, gan greu teimlad o undod a llawenydd Nadoligaidd.

Diolch i'r athrawon, y staff, a'r rhieni am eu cefnogaeth, ac i'r plant am eu brwdfrydedd a'u talent. Roedd y gyngerdd yn llwyddiant ysgubol ac yn ddathliad perffaith i'r tymor Nadolig. Diolch arbennig i Falyri Jenkins am y cymorth gyda'r gerddoriaeth unwaith eto eleni

GWASANAETHAU
JETTING
JENKINS
JETIO DRAENIAU DOMESTIG A MASNACHOL & AROLYGON CCTV
jenkinsjetting@hotmail.com
07958 701861

Cornel Cŵl



Y Gath Las

Mae llawer o gathod yn byw yn ein coedwig ni ond dim ond un ohonyn nhw sy'n las. Ei henw yw Morwena. Druan â hi, roedd gweddill cathod y goedwig yn meddwl ei bod hi'n od. 'Ti'n edrych yn rhyfedd!' medden nhw'n gas.

Roedd Morwena'n teimlo'n drist ac yn ddigalon. Penderfynodd fynd ati i chwilio am gartref newydd, lle byddai pawb yn ei derbyn fel ag yr oedd hi.

Edrychodd Morwena ar hyd a lled y goedwig ac o'r diwedd daeth o hyd i gartref y tylwyth teg. Pan welson nhw'r gath las roedd y tylwyth teg wedi dotio'n llwyr! A dyna lle mae Morewena wedi gwneud ei chartref, ymhlith y tylwyth teg caredig.

Gan Freya

Canu Carolau Nadolig CFFI Tal-y-bont

Roedd canu carolau CFFI Tal-y-bont eleni yn brofiad gwych ac yn rhywbeth wnaeth pawb fwynhau'n fawr. Aethon ni o gwmpas yr ardal yn canu carolau Nadolig, ac roedd hi'n neis gweld cymaint o bobl yn dod allan i wrando ac i'n cefnogi. Roedd yr awyrgylch yn llawn hwyl ac, chwerthin hyd yn oed pan oedd hi'n oer!

Diolch i haelioni anhygoel y gymuned, llwyddon ni i godi cyfanswm arbennig o £2,204. Bydd yr arian yma'n cael ei rannu rhwng Prostate Cymru ac Ambiwlans Awyr Cymru, dau elusen sy'n gwneud gwaith hynod o bwysig ledled Cymru.

Hoffen ni fel aelodau CFFI Tal-y-bont ddiolch o galon i bawb wnaeth roi arian, ein croesawu i'w cartrefi, neu ein cefnogi mewn unrhyw ffordd. Mae'r gefnogaeth wedi bod yn anhygoel, ac hebddi, ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd ni.

Cinio Blynyddol Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

Ar nos Wener, 5 Rhagfyr, daeth criw ynghyd yn Y Llew Du, Bow Street, ar gyfer cinio blynyddol y Sioe: Ar ôl i bawb fwynhau pryd bendigedig, estynnodd y Cadeirydd, Huw Davies, groeso i'r wraig wadd sef Caryl Roberts, Bwlchydderwen, Cynghorydd Sir Ward Trefeurig a Rheolwr Datblygu Busnes Grwp Undeb Amaethwyr Cymru. Cafwyd adroddiad difyr am hanes yr Undeb ers ei sefydlu 70 mlynedd yn ôl a sut mae tebygrwydd rhwng y digwyddiadau a phryderon presennol yn y byd amaeth a'r gorffennol.

Beirniadwyd tair cystadleuaeth, am y tro cyntaf eleni yn ystod mis Medi, gan Alwyn Hughes, Gellinebwen, Capel Madog. Cyhoeddwyd y canlyniadau ar noson y cinio fel a ganlyn:

Cae wedi ail hadu yn ystod 2024-25 (wedi noddi gan *Oliver Seeds*):
Huw Davies, Llety Ifan Hen
Gerald Watkins, Henllys
Dilwyn Jenkins, Cerrigcaranau

Cae o ronynnau wedi hadu yn ystod 2025 (wedi noddi R J Edwards a'i fab):
Gerald Watkins, Henllys
Huw Davies, Llety Ifan Hen

Ffens orau wedi ei chodi yn ystod 2025 (wedi noddi gan Rhodri Richards):
1.Huw Davies, Llety Ifan Hen
2. Dilwyn Jenkins, Cerrigcaranau
3. Bedwyr Jenkins, Tanrallt

Canu Calennig

Ar Ddydd Calan, aeth rhai plant lleol allan i ganu Calennig o dŷ i dŷ yn y pentref ac o amgylch y ffermydd lleol, gan gadw'r traddodiad gwerthfawr yn fyw. Roedd croeso cynnes gan bawb, a phobl yn falch iawn o'u gweld yn dod â neges dda a llawenydd i ddechrau'r flwyddyn newydd. Diolch i Ieuan, Elsi, Magw a Nela am eu brwdfrydedd a'u hymroddiad i gadw'r arfer hardd hwn yn fyw. Blwyddyn Newydd Dda!

Llyfr newydd

SIS Athrawes Cerdd a Llên, gol. Alun Ffred Jones

Merch o ardal Llanbrynmair yn hen sir Drefaldwyn oedd Elizabeth Jane Griffiths. Wedi graddio ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth aeth yn athrawes. Ond ar ôl priodi y Parchedig Gerallt Jones, fel gwraig y gweinidog ac fel Mrs Gerallt Jones y byddai pobl yn ei hadnabod.

Magodd bedwar o feibion bywiog sef Huw Ceredig, Dafydd Iwan, Arthur Morus ac Alun Ffred. Ond drwy'r cyfan bu'n ysgrifennu. Erthyglau i gylchgronau ac ar gyfer y rhaglen radio Rhwng Gwyl a Gwaith. Cystadlu ac ennill mewn eisteddfodau fel Eisteddfod Powys ar y stori fer. A bu'n cadw dyddiadur achlysurol yn arbennig yn ystod y cyfnod pan ym magu'r bechgyn.

Pan fu farw ei gŵr symudodd Sis o bentref Caerwedros ger Cwm Tydu i Dal-y-bont i fod yn nes at ei brawd yn Aberhosan ac yn nes at ei chwiorydd yng nghyfraith yng nghylch Aberystwyth. Bu'n hapus iawn yno a chael cymydog da yn y Parchedig Owain Williams. Bu farw yn 1991 wedi gwaeledd byr.

Wrth gwrs roedd cysylltiad rhwng ei gŵr â Thal-y-bont gan i'w dad, y Parchedig Fred Jones, symud i'r pentref fel gweinidog eglwys Bethel ddiwedd y dauddegau. Ac i'r cartref ym Maesmor y deuai Gerallt Jones ar ei wyliau o'r môr cyn troi at y weinidogaeth ei hunan.

Ac yn y gyfrol Sis, sef yr enw y byddai ei chyfeillion yn ei galw, a olygwyd gan un o'r meibion, Alun Ffred, cawn gip ar waith y wraig annibynnol a diwylliedig hon a rhywfaint o'i hanes wrth fyw mewn gwahanol rannau o Gymru. Cawn sylwadau craff am y plant, bywyd teuluol ac am yr ardaloedd y bu'n byw ynddynt a chawn synhwyro'i rhwystredigaethau ar yr un pryd, gan gynnwys sylwadau digon deifiol ar fywyd eglwysig y dydd.

Mae'r elw o'r gwerthiant yn mynd tuag at Gymorth Cristnogol. Dylai copiau fod yn y siop lyfrau Gymraeg leol neu archebwch gopi trwy gysylltu ar e bost gyda'r golygydd: affred49@gmail.com

Y Gair Olaf

Dyma'r amser o'r flwyddyn i ni edrych yn ôl ac ymlaen. O edrych yn ôl, beth welwn ni? Wel, dyna flwyddyn! Gwelwyd tystiolaeth o dwf mewn casineb at "eraill" a beio pob camwedd ar rhyw "eraill". Gwelwyd hyn ar draws y byd gorllewinol.

Roedd gan cyflymdra'r tueddiad hwn rhywbeth i'w wneud â'r cyfryngau cymdeithasol yn sicr. Ond, hefyd, roedd gan darlledwyr a newyddiadurwyr gyfraniad hefyd. Rhoddwyd llwyfan i unigolion cyfoethog a pheryglus iawn i ledu storïau celwyddog, gyda'r bwriad o ganolbwyntio sylw ar "eraill". Gallai'r "eraill" fod â lliw croen neu grefydd gwahanol neu unrhyw beth i hybu casineb at yr "eraill". Hedfanodd gwirionedd allan drwy'r ffenestr!

Ac i ba bwrpas medda chithau. Wel, mae'r ateb yn gymharol syml. Sef, i greu sefyllfa ble mae cyfoethogion yn gallu gwneud beth fyd a fynnant i hel cymaint o gyfoeth sy'n bosib i'w pocedi eu hunain.

Does dim yn newydd yn y dechneg hon. Does ond angen edrych ar hanes Yr Almaen yn yr 1930au i weld y defnydd o union yr un technegau. Mae gwneud hyn yn llawer haws mewn gwledydd â phoblogaeth fawr. Dydi o ddim yn gweithio mor hawdd mewn gwledydd bychain.

A oes ateb i'r broblem? Wel, oes. Rhaid gweithio i greu byd o genhedloedd bychan, gwaraidd, sy'n cyngrheirio ag eraill pryd mae angen – megis ar gyfer hybu masnach. Dyna'r unig ateb. Distryw yw'r dewis i beidio gwneud hynny. Mae'r dewis i fyny i ni, wrth edrych ymlaen am y flwyddyn i ddod.

Iolo ap Gwynn

Ffenestri Adfent Cronfa'r Cae Bach

1. Y Llew Gwyn

2. Minafon

3. Glan Leri

4. Llys Gwyn

5. Llys Dewi

6. Brynhyfryd

7. Dyffryn

8. Ardwyn

9. Brooklyn

10. 5 Birkenhead St

11. Felin Penpompren

12. Cwm Glas

13. Cae’r Deintur

14. Troedyrhiw

15. Gleanings

16.Cytringan

17. Simne Wen

18. Green Cottage

19. 7 Dôl Pistyll

20. 8 Birkenhead St

21.Maes Gwyn



22.Avalon

23.Bristol House

24.Glyntuen

Dyma luniau o ffenestri Helfa Drysor Adfent lle roedd yn rhaid chwilio am lun Nadoligaidd wedi ei osod mewn ffenestri wedi eu goleuo ar gyfer y Nadolig. Diolch i bob cartref a fu’n rhan o’r “calendr Adfent”.

Cronfa'r Cae Bach

Bu 2025 yn flwyddyn arall brysur i'r rheiny sy'n rhan o'r gwaith codi arian ar gyfer trawsnewid y lle chwarae yn Nhal-y-bont – y Cae Bach.

Gan ddechrau ar ddiwedd y flwyddyn mi enillodd Cai Jacob yr Helfa Drysor Adfent lle roedd yn rhaid chwilio am lun Nadoligaidd wedi ei osod mewn ffenestri wedi eu goleuo ar gyfer y Nadolig. Diolch i bob cartref a fu'n rhan o'r "calendr Adfent" – gan addurno a goleuo eu ffenest ar ddiwrnod penodol ac arddangos y llun. Gwaith yr helwyr wedyn oedd nodi pa lun ym mha ffenest ac ar ba ddyddiad y goleuwyd y ffenest honno.

Llwyddodd nifer i gael yr atebion yn gywir ond ffurflen Cai ddaeth allan o'r het o blith y ffurflenni cywir.

Codwyd £80 i'r Gronfa a chrëwyd bach o hwyl wrth i bobl grwydro'r pentre yn chwilio am y lluniau! Roedd yr arian i gyd yn elw oherwydd haelioni'r Lolfa yn argraffu'r mapiau, y Garej am eu gwerthu ac i'r person anhysbys a gyfrannodd y wobr o £25.

Cyn hynny mi godwyd dros £200 yn Ffair y Neuadd a cynhaliwyd Helfa Drysor a noson chilli a gododd dros £500. Mi lansiwyd y Clwb 200 sy'n dal i fynd tan yr haf gyda gwobrwyon misol yn cael eu hennill. A'r digwyddiad mawr eleni oedd y Sêl Planhigion a gododd bron i £1000. Diolch i Gyfeillion Capel Nazareth am y rhodd o £275 o Gronfa Goffa JM Jenkins, Maesgwyn gynt. Bu'r pwyllgor hefyd yn brysur yn codi arian mewn ffyrdd eraill a bu'n llwyddiannus i gael rhodd gan Gronfa Eleri a grant o dros £13,000 o Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer offer penodol i blant anabl. Rydyn ni'n reit hyderus y byddwn yn gallu dechrau prynu offer yn fuan a wedyn bydd pethau yn gynhyrfus iawn!

Diolch i bob un ohonoch am fynychu, am gyfrannu ac am bob help. Rydyn ni'n ffodus bod gyda ni Bwyllgor diwyd ond hefyd mae yna griw yn y pentre sydd yn ein helpu ni bob tro.

A 2026 – mwy o geisiadau am gymort ariannol a mwy o ddigwyddiadau!

Bingo, Sêl Planhigion, Cwis Mawreddog, Helfa Drysor a chilli, prynhawn o gemau bwrdd yn y Neuadd, noson sinema???
Beth hoffech chi ei weld – os oes gyda chi syniadau rhowch wybod i ni drwy gysylltu gyda Clerc y Cyngor: cyngorcmm@gmail.com , neu anfon llythyr i Papur Pawb wrth gwrs!

Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
07375 422 608

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
Mawrth i Gwener
9.30 – 5.00
01970 832 674

argraffu
lleol a rhesymol

ylolfa
Talybont Ceredigion SY24 5HE
01970 832 304 /www.ylolfa.com
Holwch Paul am bris: paul@ylolfa.com

STORFA HUNAN FYNEDIAD
UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

MONITRO DIOGELWCH
24 AWR
Storfa Cartref & Busnes
Bocses a Bubblewrap
Symud gyda Wales Removals
STORFA CANOLBARTH CYMRU
Tel: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
MID WALES STORAGE
www.midwalesstorage.co.uk

Garej Davmor
Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Sudoku Papur Pawb

			2					1
			4	1	6	9		
			5			3		
3	5	6		7				8
	1		3				4	9
	9						3	
	6	1					5	
				5	8	1	2	
7			1	4				

Dyma Sudoku Papur Pawb. Rhowch rhif o 1 i 9 ym mhob cell wag fel bod pob rhes, colofn a bwlch yn cynnwys pob rhif o 1 i 9 heb ail-adrodd. Cofiwch ddefnyddio rhifau Cymraeg yn unig!

Chwaraeon a Hamdden

PENNOD NEWYDD

Mae Clwb Pêl-droed Tal-y-bont wedi dychwelyd i chwarae ar Gae'r Odyn Galch am y tro cyntaf ers 2017.

Bu'r clwb yn chwarae ar y cae am flynyddoedd cyn i'r perchennog ar y pryd adfeddiannu'r cae wyth mlynedd yn ôl. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu'r tîm yn chwarae eu gemau cartref yn Aberystwyth ac mae'n rhyfeddol bod y clwb wedi goroesi cyfnod hir o chwarae ymhell o'r pentref.

Wedi i'r cae gael ei werthu i deulu Cynnullmawr, gwnaed trefniant gyda Chymdeithas Maes Chwarae Tal-y-bont a'r cylch i ail-ddechrau chwarae ar y cae.

Wrth i'r rhifyn hwn o *Bapur Pawb* fynd i'r wasg, roedd y Gymdeithas wrthi'n paratoi'r cae ar gyfer y gêm gyntaf i'w chwarae yno. Am rai misoedd bu Robert Griffiths a Mike South yn torri'r gwair ac yn rholio'r cae. Yna, ym mis Rhagfyr, aeth Anthony Southgate ati i farcio'r cae tra y bu aelodau eraill o'r clwb yn rhoi'r goliau newydd, a brynwyd o ganlyniad i dderbyn cymorthdal gan Gronfa Leri, at ei gilydd.

Roedd popeth yn barod felly erbyn y gêm gyntaf yn erbyn Trydydd Tîm Aberystwyth ar ddydd Sadwrn 10 Ionawr.
Bydd adroddiadau llawn ar hynt a helynt y tîm yn ystod y rhifynnau nesaf.

CYHOEDDIAD DIWRNOD GÊM

Dydd Sadwrn 10fed Ionawr | Cychwyn 14:00
Mae'r aros drosodd.
Ar ôl 8 mlynedd mae pêl-droed yn dychwelyd i Dal-y-bont a Chae'r Odyn Galch.
Diwrnod enfawr i'r clwb a'r pentref wrth i ni groesawu Aberystwyth Ceidwaid yn ein dychweliad hir-ddisgwyliedig i'n pridd ein hunain.
Dewch i lawr a chefnogi'r bechgyn wrth i ni geisio ymestyn ein dechrau di-golli i'r tymor.

Gyrfa Chwist y Sioe

Cynhaliwyd yr yrfa chwist flynyddol yn y Neuadd Goffa ar nos Fercher, 17 Rhagfyr. Bu'n noson lwyddiannus unwaith eto eleni, gydag 15 o fyrddau. Hanner amser, daeth cyfle am baned a chacennau a drefnwyd gan aelodau'r pwyllgor.

Buddugwyr y noson oedd:
Sgôr Uchaf: Elinor Jones
1af Dynion/Merched: Richard Jones, Llanbrynmair/Janet Evans, Cefngweiriog
2il Merched: Barbara Jenkins, Hafod Ifan
2il Cydradd Dynion: Ifan Davies a Huw Jones
3ydd Merched: Liz C
Bwrw Allan Dynion/Merched: Alun / Margaret Davies
2il Bwrw Allan Dynion/Merched: Enoc Jenkins, Tyngraig/Rhian
1af o dan 16 oed: Gruff Jones, Awel y Gors
2il o dan 16 oed: Cadi Lloyd-Williams, Neuadd Brynglas
Bwbi Dynion/Merched: Marion Evans, Tynant/Ann James, Penbanc
Minature: Dylan Jones, Awel y Gors/Phil Moyle

Yn ystod y noson tynnwyd y Raffl Fawr gan y Llywyddion, Aeron ac Aileen Williams, Maesmeillion.

Yr enillwyr oedd:
Penwythnos i deulu yn un o Fythynnod Gwyliau Tynrhelyg – Teulu Evans, Pantcoch
£75 – Brysgaga, Bowstreet;
£50 – Nia Richards, Rhwilan;
£25 – Lois Williams, Caerdydd;
£25 – Catrin Fflur, Ynys Mon;
£25 – Tomi Jac, Cerrigcaranau;
£25 – Elsbeth Morgan, Tynrhos
£25 – Emyr Jones.

Diolchodd Huw Davies, Cadeirydd y Sioe, am y gefnogaeth a gafwyd ar y noson ac i Glyn Davies yr MC am gadw trefn ar y cyfan.

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111